casnewydd eich lles — your newport your wellbeing

Ebrill 2023

# GWEITHIO GYDA'N GILYDD AR GYFER RINGLAND

Croeso i'r rhifyn cyntaf o Gylchlythyr Ringland sy'n dod â'r diweddaraf i chi ar greu'r Campws Ringland; sy'n cynnwys y Ganolfan Iechyd a Llesiant, yr Adfywio Siopau, yr Hwb, ac agor yr Ardal Gemau Aml Bwrpas (MUGA).

Gyda chymaint o weithgarwch gan nifer o sefydliadau, roedd yn gwneud synnwyr i ddod â'r cyfan ynghyd mewn un lle. Rydym yn awyddus i gyfleu unrhyw wybodaeth berthnasol ynghylch y datblygiadau newydd a hefyd amlygu gwaith gwych y sefydliadau a'r grwpiau cymunedol yn yr ardal.

Os ydych yn ymwybodol o Gymdeithasau Rhieni ac Athrawon Ysgol neu sefydliadau gwirfoddol, neu os ydych yn rhan o grwpiau cymunedol, ac yr hoffech rannu eich llwyddiannau gyda'r ardal ehangach, cysylltwch â ni.





Mae Newport City Homes, Kier, Lovell a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi ffurfio'r cyfuniad hwn ar gyfer cymuned Ringland. Rydym yn cydnabod y gall syniadau gwych gael eu gwireddu drwy gyflwyno symiau eithaf bychan o arian neu weithgaredd ar yr amser iawn, a hynny unwaith yn unig.

Mae **Budd-dâl Cymunedol Ringland** yn cynnig cymorth ariannol, cyngor, gwybodaeth ac arbenigedd ymarferol i gryfhau agweddau pwysig o fywyd cymunedol a datblygiad menter. Gall hyn gynnwys, er enghraifft: prynu eitemau bach o offer; gwaith cyfalaf bach; gweithgareddau, digwyddiadau a phrosiectau; dechrau a datblygu busnes; prosiectau peilot.

I wneud cais, yn y lle cyntaf, e-bostiwch:Meriel.gough@lovell.co.uk

a bydd y partner mwyaf perthnasol yn cysylltu â chi i glywed eich syniadau a darparu'r wybodaeth i wneud cais am ein Budd-dâl Cymunedol Ringland.

newport city homes — GIG Cymru NHS Wales Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board — Newport City Council Cyngor Dinas Casnewydd

LOVELL — KIER — pobl — Llywodraeth Cymru Welsh Government

Ebrill 2023

# DIWEDDARIAD AM Y GANOLFAN IECHYD A LLESIANT






Ym mis Chwefror, gadawodd Practis Meddygol Ringland yr adeilad gwreiddiol a symud i adeilad dros dro ar draws y ffordd, lle bydd y practis wedi ei leoli hyd nes bydd y ganolfan newydd wedi ei hadeiladu.

Ar hyn o bryd rydym yn paratoi i ddymchwel adeilad y practis meddygol a gobeithir dechrau ar y gwaith ym mis Mai 2023.

Bydd yr holl ddeunydd gwastraff o ganlyniad i'r dymchwel yn cael ei ailgylchu yn hytrach na'i anfon i safle tirlenwi, a fydd yn helpu i leihau ôl troed carbon y prosiect.

“Unwaith bydd y dymchwel wedi ei gwblhau, bydd gwaith tir yn dechrau, gyda seiliau newydd yn cael eu creu a gosod draeniau newydd ar safle'r ganolfan iechyd newydd. Os aiff popeth yn iawn, dylem weld ffrâm y ganolfan iechyd newydd yn cael ei chodi fis Awst 2023.” (Ian, Rheolwr Prosiect)

Am ragor o wybodaeth ynghylch y datblygiad, ewch i https://abuhb.nhs.wales/clinical-. futures/developments/newport-east-health-and-wellbeing-centre/

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y datblygiad ac yn dymuno cael gwybod am sut mae'r prosiect yn dod yn ei flaen, cysylltwch â ni ar drwy'r e-bost isod.

**CYSYLLTWCH Â: ABB.NEHWBCFeedback@wales.nhs.uk**

Ebrill 2023

# ADFYWIAD RINGLAND

Mae Lovell yn gweithio gyda Newport City Homes i ddarparu cam nesaf y prosiect "Adfywio Ringland" yn Ninas Casnewydd.

Hoffem ddiolch i chi am eich amynedd parhaus wrth i ni barhau â'r arolwg a'r gwaith dargyfeirio yn Ringland a'r cyffiniau. Mae'r rhain yn gamau hanfodol sydd angen eu cymryd i fynd â phrosiect Ringland yn ei flaen. Gwerthfawrogir yn fawr eich bod yn deall ac yn cefnogi!

Rydym wedi gwneud cynnydd anhygoel ar y prosiect hyd yn hyn! Fel rhan o'n hamserlen, rydym eisoes wedi cyflawni cryn dipyn.

Hyd yn hyn, rydym wedi cynnal ymchwil helaeth ar y dulliau gorau i fynd i'r afael â'r prosiect, wedi casglu a dadansoddi data i weld beth yn union fydd ei angen ar y prosiect, ac wedi datblygu amserlen fanwl er mwyn cwblhau'r prosiect.

Mae'r amserlen ganlynol yn dangos yr holl waith sydd wedi ei wneud yn ystod 2023:

- Dechreuwyd gwaith dargyfeirio nwy gan Wales & West Utilities ym mis Chwefror 2023 ac mae disgwyl iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd Ebrill 2023 gyda rheoli traffig yn parhau ar waith tan ganol mis Ebrill 2023.
- Mae'r tîm BT wedi bod ar y safle ers Mawrth 2023, a byddant yn cwblhau eu gwaith ar ddiwedd y mis.
- Dechreuwyd y broses ddymchwel ym mis Ionawr 2023 a bydd yn dod i ben ym mis Mawrth 2023.
- Dechreuodd Dŵr Cymru'r gwaith arolwg dŵr a'i gwblhau ym mis Ionawr 2023.
- Dechreuwyd yr arolwg coed ym mis Chwefror 2023 a bydd yn cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2023.



Yn ystod y misoedd nesaf, mae Lovell yn bwriadu cymryd camau pellach, fydd yn cynnwys:

- Erbyn diwedd gwanwyn/dechrau haf 2023, bydd tîm safle Lovell yn dechrau adeiladu ar y safle, gan nodi dechrau taith hir a gwerth chweil.
- Rydym yn cynllunio i ddechrau'r gwaith dymchwel ar ddiwedd gwanwyn 2023 a'i gwblhau erbyn Haf 2023.

Bydd ystad Ringland yn siwr o fod yn dirwedd fendigedig i'w chael! Bydd yna gymysgedd o blanhigion wedi eu dewis yn ofalus, yn cynnwys llwyni, perlysiau, dringwyr, a llwyni ffrwythau gwyntyllaidd, y cyfan yn cydweithio i gyfoethogi bioamrywiaeth a dod â'r ardal yn fyw!

Ynghyd â hyn, bydd coed mawreddog yn dod â theimlad croesawus o daldra ac yn darparu sawl math o liw gwyrdd hardd yn ystod yr haf a lliw drwy gydol y flwyddyn.

**CYSYLLTWCH Â LOVELL'S:**
**MERIEL.GOUGH@LOVELL.CO.UK**

Ebrill 2023

# DINAS CASNEWYDD DIWEDDARIAD

## Mountbatten

Mae ein datblygiad Mountbatten yn cynnwys 12 o fflatiau a 12 tŷ. Mae'r safle'n dod yn ei flaen yn dda gyda'n tai newydd ac yn barod i groesawu teuluoedd a chwsmeriaid newydd yn ystod haf 2023.



## Dewch i gwrdd â'ch Rheolwyr Cymdogaeth

Byddwn yn cerdded o amgylch Ringland ar 11 Mai 2023 a Royal Oak ar 25 Mai 2023.

Cadwch lygad am fwy o wybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol ynghylch hyn a sut allwch chi gymryd rhan. Byddem wrth ein bodd yn cwrdd â chi a siarad am eich cartrefi a'ch cymdogaeth.

Os oes gennych unrhyw faterion yr hoffech eu trafod cyn hynny neu unrhyw broblemau sy'n eich wynebu, rhowch wybod i ni ar Housing.Southeast@newportcityhomes.com

Rydym yn gwybod bod gan Ringland ysbryd cymunedol cryf! Mae llawer yn digwydd yn yr ardal, yn cynnwys cynllun adfywio'r ganolfan siopa a gwaith datblygu o amgylch hynny. Rydym eisiau ceisio sicrhau ein bod yn gwybod beth sy'n bwysig i chi, ac os nad yw pethau'n iawn, rydym eisiau helpu i newid hyn.

Rydym yn awyddus i ddarparu "Cynllun Beth sy'n Bwysig" ar gyfer ardal Ringland, ond mae angen eich cymorth arnom. Os oes gennych ychydig o funudau, sganiwch y cod QR a llenwch yr arolwg byr i fynegi eich barn.

Housing.Southeast@newportcityhomes.com

Ebrill 2023

# LLWYDDIANT YSGUBOL WRTH AGOR MUGA NEWYDD



County in the Community "Mae sesiynau Premier League Kicks eisoes wedi ymgysylltu 64 o bobl ifanc 8-17 oed ar nos Wener.

Roedd y lansiad yn rhan o bartneriaeth newydd gyda'r Feathers Association sydd wedi eu lleoli yn Llundain. Maent am gynorthwyo  i ariannu darparu camp chwaraeon hanner tymor am ddim i bobl ifanc Ringland a'r ardal gyfagos yn ystod hanner tymor y Pasg."




Nododd The Feathers Association:

"Rydym yn falch o ddod ynghyd â sefydliad elusennol Clwb Pêl-droed Casnewydd, County In The Community, i ariannu parhad a thwf y rhaglen 'Fit & Fed'. Mae'r gwaith hanfodol hwn yn cynnig  mynediad am ddim i sesiynau chwaraeon o ansawdd uchel a phryd o fwyd poeth, maethlon tu allan i amser ysgol i blant lleol,  y mae llawer ohonynt yn wynebu goblygiadau'r argyfwng costau byw parhaus.

**Mae sesiynau'r Pasg yn cael eu cynnal 11 ac 12 Ebrill, 11am - 2pm.**

Os ydych yn dymuno i'ch plentyn fynychu, cysylltwch â Liam Jenkins i gael y ddolen i'r ffurflen ar-lein.

www.newport-county.co.uk liam.jenkins@newport-county.co.uk

Ebrill 2023



# RHWYDWAITH DROS 50 TREBERTH

Datblygiad diweddar arall yn yr ardal yw Cartref Yn Y Coed, Treberth. Gwahoddodd POBL Housing sawl partner a thrigolion i ymuno â'r Rhwydwaith Llesiant Integredig, yn cynnwys Cyngor Dinas Casnewydd, Bwrdd Iechyd  Prifysgol Aneurin Bevan ac aelodau o'r gymuned. O hyn, crëwyd Rhwydwaith dros 50 Treberth.

Gyda datblygiad lle cymunedol yn y cyfadeilad newydd, rydym yn awyddus i hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol ac annog y cylch ehangach o drigolion i deimlo eu bod yn cael croeso yn y lle.

Blaenoriaeth allweddol i'r Rhwydwaith oedd gwella hawl i wasanaethau a threfnwyd dIgwyddiad Iechyd a Llesiant Cymunedol. Gwahoddwyd sefydliadau perthnasol i fynychu, i fynd i'r afael â phroblemau a bylchau mewn gwasanaethau iechyd.

Gyda 18 o sefydliadau, dros 60 o drigolion a lleisiau bendigedig Côr Cymunedol Eglwys Bishpool, roedd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol! Roedd arweinwyr cymunedol yn cymryd rhan o'r dechrau, gan ddarparu llais i'r gymuned. Mae'r unigolion hyn yn uchel eu parch yn y gymuned ac yn annog mwy i gymryd rhan.



Ebrill 2023




# HWB CYMDOGAETH

Mae Hybiau Cymdogaeth Casnewydd yn cynnig defnydd rhwydd i wasanaethau hanfodol mewn cymunedau lleol i drigolion.

**Oriau Agor: 9am-4pm**

Sesiynau galw heibio ar gael i bobl sy'n chwilio am gyngor ynghylch dychwelyd i'r gwaith, dod o hyd i swydd well neu gynyddu eu sgiliau.

# ACADEMI IEUENCTID CASNEWYDD

**Ydych chi'n adnabod unrhyw un 16 i 19 oed sy'n chwilio am gyfeiriad neu help gyda'r camau nesaf yn eu gyrfa?**

Y coleg ddim yn gweithio i chi? Dim opsiynau?


Os ydych yn chwilio am hyfforddiant, addysg a chyfleoedd yn ymwneud â gwaith, pam na ddewch chi i Academi Ieuenctid Casnewydd?

- Tâl rhwng £30 a £55 yr wythnos a threuliau teithio
- Hyfforddiant cyflogadwyedd i'ch helpu i sefyll allan yn y farchnad swyddi
- Ystod o wahanol gymwysterau galwedigaethol wedi eu darparu mewn amgylchedd diogel, hwyliog, a hynod o fodern
- Hyfforddiant Saesneg, Mathemateg a TGCh os ydych angen gwella eich sgiliau
- Yr holl gymorth sydd ei angen arnoch i fynd yn eich blaen i'r cam nesaf yn eich bywyd p'un ai yw'n brentisiaeth, cyflogaeth neu addysg bellach

Diddordeb? Cysylltwch â ni heddiw…
**www.newport.gov.uk/nya**

Ebrill 2023

# CYSYLLTIAD AR-LEIN I'CH CYMUNED




Gyda phopeth o glybiau i weithgareddau, i grwpiau a sefydliadau, gallwch ddefnyddio'r map am ddim hwn i ddod o hyd i bethau i'ch helpu chi a'ch teulu i gyfoethogi eich iechyd a llesiant.

Mae'r mapiau yn galluogi cymunedau lleol i ddod o hyd i'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gymryd rhan mewn gweithgareddau neu ofyn am help, y gallant ei defnyddio i ddechrau gwella eu lles.

Os ydych yn grŵp neu sefydliad cymunedol ac yn dymuno cael eich ychwanegu i'r cyfeirlyfr ar-lein a map rhyngweithiol, anfonwch e-bost at: **info@yournewport.co.uk**.

